
# Gweithio gerllaw neu ar briffyrdd

Mae gweithio gerllaw neu ar ffyrdd/priffyrdd yn un o'r risgiau pennaf sydd yn gysylltiedig â chodi sbwriel. Mae'n bwysig rheoli'r risg yma cymaint â phosibl, a nod y canllawiau canlynol yw eich helpu i wneud hynny.

Ni ddylai'r ardaloedd canlynol fod yn rhan o'r ardal lle'r ydych yn codi sbwriel;

- **Traffordd**
- **Ffordd ddeuol a/neu gefnffyrdd a/neu slipffyrdd**
- **Llain ganol neu gylchfan ar unrhyw fath o ffordd**




Nid oes un fformiwla syml y gellir ei weithredu i bennu a ellir rheoli eich ardal ddewisol yn briodol er mwyn osgoi'r risgiau sydd yn gysylltiedig â phriffyrdd. Yn gyffredinol, dylech drefnu eich gweithgaredd ar adeg briodol o'r dydd, caniatáu am dywydd ac amodau ffordd presennol (ac yn y dyfodol), ac osgoi rhwystro neu dynnu sylw defnyddwyr y ffordd. Dylid ystyried yr ardaloedd canlynol wrth gwblhau eich asesiad risg;

**Math o ffordd ac amlder y traffig -** dylid ystyried y math o ffordd (e.e. trefol, gwledig, cul-de-sac tawel), y terfyn cyflymder yn yr ardal (ac a yw'n cael ei ddilyn), amlder y traffig ac a oes llwybr troed a/neu ymyl neu beidio (gweler uwch). Ni fyddai traffig cyflym a llawer ohono'n cael ei gynghori ond byddai traffig araf a dwysedd is yn fwy derbyniol. Cofiwch nad oes yn rhaid i gerbyd fod yn teithio ar unrhyw fath o gyflymder i achosi anaf sylweddol.

**Llwybr troed a/neu ymyl -** os oes llwybr troed a/neu ymyl yn bresennol yna dylid cyfyngu'r gweithgaredd codi sbwriel i'r ardal hon. Dylai'r cyfranogwyr beidio ymestyn i'r ffordd/briffordd i gasglu sbwriel, oherwydd gallai cerbyd yn taro codwr sbwriel achosi anaf difrifol. Argymhellir defnyddio parth diogel os oes digon o le, gan adael bwlch rhwng y ffordd a'r ardal waith.

**Maint ac oed y grŵp -** mae oed y grŵp yn bwysig wrth bennu a fydd y cyfranogwyr yn gallu dilyn y mesurau rheoli yr ydych wedi eu sefydlu neu beidio a chofiwch fod gan bobl iau amgyffrediad llawer is o risg. Dylai maint eich grŵp ystyried yr ardal lle'r ydych yn codi sbwriel, er enghraifft, efallai na fydd yn briodol i 20 o bobl godi sbwriel ar lôn wledig unigol, ond byddai ystâd o dai â llawer o ofod gwyrdd yn dderbyniol.

**Gwelededd –** mae'n bwysig bod defnyddwyr y ffordd yn gallu eich gweld ac yn cael cyfle i ymateb. Mae nifer o ffactorau'n gallu effeithio ar welededd, yn cynnwys tywydd gwlyb, tarth neu niwl, neu haul llachar neu isel; yr adeg o'r dydd; a nodweddion y ffordd fel troeon dall a/neu ael bryniau. Dylid gwneud addasiadau, yn cynnwys gohirio, os oes gormod o risg.